

Adroddiad ar Adolygiad Arfer Oedolion

Adolygiad Cryno o Arfer Oedolion Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro

PARTHED: AAO 04/2017

Amlinelliad cryno o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

I'w cynnwys yma: -

- *Cyd-destun cyfreithiol o ganllawiau ynglŷn â pha adolygiad sy'n cael ei gynnal*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad*
- *Cyfnod amser sy'n cael ei adolygu a pham*
- *Amserlen gryno o ddiwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Comisiynwyd adolygiad X gan Fwrdd Diogelu Oedolion X yn dilyn argymhelliad Is-Grŵp Adolygu Arfer Oedolion yn unol â'r Canllaw ar gyfer Adolygiadau Arfer Oedolion Aml-Asiantaeth. Bodlonir y meini prawf i'r adolygiad hwn dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3, Adran 6.1

"Caiff adolygiad cryno o arfer oedolion ei gomisiynu pan fo oedolyn mewn perygl sydd heb ar unrhyw bryd yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, ac a fu'n rhywun o mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu i'w ddiogelu rhag cam-drin neu esgeulustod ar ôl ymholiad gan awdurdod lleol, wedi:

Marw; neu

Gael ei anafu'n mewn ffordd a allai arwain at farwolaeth, neu wedi Datblygu nam iechyd difrifol a pharhaol"

Yr adolygwyr oedd Debbie Pachu, Nyrs Ddynodedig, y Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth y GIG a Claire Jackson, Arbenigwr Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Cadeirydd y Panel oedd y Ditectif Arolygydd (DA) Clayton Ritchie, Heddlu De Cymru.

Ceir cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn Atodiad 1.

Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad

Cafwyd atgyfeiriad gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro o Heddlu De Cymru o ran menyw 59 oed (Oedolyn C) a fu farw yn ei chartref lle preswylodd â'i mab oedd yn oedolyn.

Canfuwyd Oedolyn C yn farw yn ei chartref gan griw ambiwlans ym mis Tachwedd 2017, yn dilyn galwad ffôn gan fab Oedolyn C, a ganfu ei fam yn yr ystafell fyw gyda drws mewnlol ar ei phen. Credwyd bod y drws wedi disgyn oddi ar ei fachau oherwydd ei gyflwr gwael. Cofnodwyd taw achos y farwolaeth oedd clefyd y galon, atherosclerosis y rhydweliâu coronaidd a briwiau gwythiennol wedi'u heintio ar y coesau.

Aeth Heddlu De Cymru yno ac ar ôl archwilio, nodwyd bod gan Oedolyn C ddolurion ar ei choesau, ac roedd yn ymddangos eu bod wedi'u heintio. Roedd cyflwr y cartref yn wael. Canfuwyd meddygaeth yn y cartref a daeth i'r amlwg nas cymerwyd.

Credai rhai asiantaethau fod mab Oedolyn C yn unig ofalwr arni, ond roedd cymdogion yn disgrifio'u perthynas fel un chwerw. Mae'r wybodaeth gefndirol a gyflwynwyd gan yr Heddlu a Gofal Cymdeithasol Oedolion yn cefnogi'r farn hon.

Yn ystod y cyfnod dan sylw roedd pedair galwad i'r Heddlu gan gymydog a oedd yn poeni am yr anawsterau yn y berthynas a gweiddi yng nghyfeiriad Oedolyn C. Roedd gan fab Oedolyn C anawsterau iechyd, ond mae'r rhain y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad felly nid oes modd eu hystyried. Roedd Oedolyn C hefyd wedi bod yn dioddef o grud cymalau, a effeithiodd ar y ddau ben-glin, a gallai symud lai a llai. Nodwyd yng nghofnodion y meddyg teulu ei bod yn gaeth i'r tŷ.

Yn dilyn marwolaeth Oedolyn C ni sefydlwyd unrhyw esgeulustod troseddol, ond, roedd tystiolaeth o hunan-esgeulustod. Rhagdybiwyd bod gan Oedolyn C allu a'i bod wedi gwrthod cyfleoedd rheolaidd i gael triniaeth feddygol, ac na chysylltodd hi na'i mab yn effeithiol ag asiantaethau er gwneud ceisiadau rheolaidd am gymorth.

Mae'r Adolygiad Cryno hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 2 Medi 2017 i 10 Tachwedd 2017. Mae'n dechrau o atgyfeiriad lles gan yr adran Tai ac yn dod i ben â marwolaeth Oedolyn C yn ei chartref, a arweiniodd at alwad frys i Wasanaethau Ambiwllans Cymru.

Arfer a dysgu sefydliadol

Nodi pob pwylt dysgu unigol sy'n deillio o'r achos hwn (gan gynnwys amlygu arfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad cryno o'r amgylchiadau perthnasol

Nodi Arfer Da

Roedd tystiolaeth o arfer da gan asiantaethau fel yr Heddlu, a aeth i'r cartref yn dilyn adroddiad trydydd parti a ddisgrifiodd mab Oedolyn C yn gweiddi ar Oedolyn C, a chyflwyno Hysbysiad Diogelu Cyhoeddus (HDC) i Bwynt Cyswllt Cyntaf yr Awdurdod Lleol oherwydd eu pryderon am gyflwr cartref Oedolyn C.

Dynodwyd yn glir yn nogfennaeth yr heddlu a wnaed ar y pryd fod ganddynt bryderon am Oedolyn C. Er iddi wadu ffraeo â'i mab, nododd y swyddogion fregusterau eraill a risg yn gysylltiedig ag amgylchiadau cymdeithasol Oedolyn C a allai fod wedi gofyn am anghenion gofal a chymorth ychwanegol.

Ar ôl cael y HCD gan yr Heddlu, trefnwyd ymweliad ar y cyd gan Byw'n Annibynnol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion. Ni chyfathrebodd Oedolyn C am hyn.

Roedd y Gwasanaeth Nyrsio Ardal wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gael mynediad i'r cartref, yr oedd o'r farn ei fod yn fwy na bodloni'r meini prawf a nodir yn y Polisi Nyrsys Ardal o ran apwyntiadau a gollwyd.

Roedd lles tai wedi gwneud ymdrechion niferus i gysylltu ag Oedolyn C a'i mab i ddatrys eu hanawsterau ariannol a'u hatal rhag cael eu taflu allan.

Rhannu gwybodaeth a gwaith amlasiantaeth

Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw'r adolygiad hwn, roedd amryw asiantaethau wedi ymwneud ag Oedolyn C a'i mab. Roedd y teulu wedi bod mewn cysylltiad â: Tai, yr Heddlu, Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, meddyg teulu, Nyrsio Ardal a Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol.

Ni wyddai nifer o gynrychiolwyr yr asiantaethau fod eraill yn rhan o'r broses. Roedd gan yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol yr un anawsterau wrth gysylltu, gyda'r cyfan yn gwneud ymdrechion amrywiol i ddatrys materion a oedd yn effeithio ar iechyd, lles neu les ariannol Oedolyn C.

Er gwaetha'r ymdrechion lu i gysylltu ag Oedolyn C a'i Mab, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r asiantaethau'n gweithio'n unigol. Hefyd, cadwai asiantaethau wybodaeth ar eu systemau nas cyfathrebwyd yn effeithiol rhwng aelodau eu hasiantaeth eu hunain na'r sefydliadau partner.

Yn dilyn y digwyddiad ym Mawrth 2017, lle cyflwynwyd HCD a rannwyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, gallai marciwr fod wedi'i osod ar gofnodion yr Heddlu o ran Oedolyn C yn ei nodi fel bregus fel y byddai swyddogion a oedd yn ateb galwadau dilynol yn gwybod am y pryderon a godwyd yn flaenorol.

Roedd y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol yn ceisio prosesu grant cyfleuster anabledd i wneud addasiadau i'r cartref, ac ar yr un pryd y gwasanaethau tai'n ceisio negodi symud Oedolyn C i le llai fel na chât ei thafllu allan oherwydd ôl-ddyledion rhent. Nid oedd y naill adran yn gwybod am waith y llall. Cydnabu ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu y byddai dal ati â'r addasiad tŷ yn wrthgynhyrchiol oherwydd yr ystyriaeth a roddwyd i hysbysiad taflu allan.

Ceisiodd y Gwasanaeth Nyrsio Ardal gysylltu ag Oedolyn C yn dilyn atgyfeiriad gan ei meddyg teulu ar ôl iddo alw i'r tŷ. Daeth o bryderon bod mab Oedolyn C wedi dod i'r feddygfa'n gofyn am analgesia ar ran ei fam.

Nodwyd gan y meddyg teulu fod ceisiadau'n cael eu gwneud am bresgripsiynau Oedolyn C a oedd yn amlach nag y dylent fod. Nodir yng nghofnodion y meddyg teulu bod mab Oedolyn C wedi "saethu allan drwy'r feddygfa" ar ôl cael gwrthod meddyginiaeth. O ganlyniad dechreuodd y feddygfa fonitro ceisiadau am bresgripsiwn.

Yn dilyn galwad y meddyg teulu â'r tŷ, nodwyd yn ei gofnodion bod Oedolyn C yn flêr, yn drewi o wrin, gyda choesau heintiedig chwyddedig gydag wlsereiddio posibl. Roedd diagnosis cywir yn anodd oherwydd gormodedd o hengroen ac llysnafedd. Gwnaed pethau'n anos gan Oedolyn C yn gwrthod agor y llenni. Mynegodd y meddyg teulu bryder sylweddol am gyflwr cartref Oedolyn C bryd hynny.

Yn ogystal â gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal am asesiad pellach a thriniaeth, cynigiodd y meddyg teulu atgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol am asesiad gofal a chymorth. Gwrthododd Oedolyn C atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ond cytunodd i atgyfeiriad i'r Nyrs Ardal. Cofnododd y meddyg teulu fod gan Oedolyn C y gallu i wneud y penderfyniad hwn.

Gwnaeth y Nyrsys Ardal bedwar ymweliad cartref ag Oedolyn C yn dilyn yr atgyfeiriad cyntaf gan y meddyg teulu; yn anffodus ni allai'r Nyrsys Ardal gael ymateb gan Oedolyn C a'i mab bryd hynny.

Gwnaed ail atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal yn dilyn ail ymweliad gan feddyg teulu, eto'n nodi bod Oedolyn C yn flêr ac yn drewi o wrin, gyda choesau chwyddedig, llysnafeddog â hengroen arnynt, yr oedd wedi bod yn eu trin ei hunain. Aeth y Nyrsys Ardal ymlaen i wneud pedair

ymdrech bellach i ymweld ond yn y pen draw gwrthodwyd mynediad i'r eiddo iddynt gan fab Oedolyn C.

Ceisiodd y Gwasanaeth Gwaed ymweld ag Oedolyn C ar gais y meddyg teulu, ond ni chafwyd ymateb.

Roedd tystiolaeth bod gan y Tîm Nyrsio Ardal a'r Gwaedolegydd bryderon am yr anallu i fynd i'r eiddo a'u bod wedi rhoi gwybod i'r feddygfa am eu hanawsterau. Dengys cofnodion o'r adeg hon na rannwyd y wybodaeth hon yn uniongyrchol rhwng gweithwyr proffesiynol h.y. y Nyrsys Ardal a'r feddygfa. Cafwyd y wybodaeth drwy staff gweinyddol yn gweithredu ar ran y feddygfa a'r Tîm Nyrsio Ardal. Arweiniodd hyn at y feddygfa'n gwybod am rai, ond nid pob un, o'r ymweliadau gan y Nyrsys Ardal.

Eglurodd ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu nad oes trefniadau cyfarfod ffurfiol rhwng y Gwasanaeth Nyrsio Ardal a'r feddygfa i drafod achosion cymhleth. Ni wyddai'r Nyrsys Ardal am bryderon y feddygfa o ran cyflwr cartref Oedolyn C, na'r pryderon am y ceisiadau cyson am boenliniarwyr gan Fab Oedolyn C.

Ymwneud â Gwasanaethau

Roedd yn amlwg o ddogfennau proffesiynol a'r farn a fynegwyd gan ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu fod ymgysylltu rhwng Oedolyn C a gwasanaethau'n heriol; wedi'u nodweddu gan fethiant i gadw apwyntiadau, diffyg ymgysylltu effeithiol â gwasanaethau a chyfeirio cyfrifoldeb a phenderfyniadau i'w mab.

Er bod tystiolaeth bod pob un o gynrychiolwyr yr asiantaethau wedi ceisio ymwneud ag Oedolyn C mewn ffordd gynhyrchiol, ni allai unrhyw un feithrin perthynas lwyddiannus ag Oedolyn C. Cafodd hyn effaith ar allu'r gweithwyr proffesiynol i feithrin perthynas adeiladol ag Oedolyn C gan ei gwneud yn anos ceisio datrys problemau ag ôl-ddyledion rhent, taflu allan unsyth, iechyd yn gwaethygu, trwsio'r cartref ac addasiadau i'r cartref.

Cafodd rhyngweithio ag Oedolyn C ei ddylanwadu ymhellach gan ymddygiad anghyson ac ansefydlog ei mab, a arweiniodd at weithwyr proffesiynol yn nodi bod angen ymweld â'r cartrefi mewn parau.

Dynododd asesiadau risg y Tîm Nyrsio Ardal fod ymweliadau cartref yn amhriodol oherwydd y risg i glinigwyr. Nid uwchgyfeiriwyd y pryderon fel rhai'n ddangosol o'r risg bosibl i Oedolyn C, nac ychwaith fel rhai a effeithiai ar allu Oedolyn C i ymwneud ag asiantaethau.

Hunan-esgeulustod

O'r cofnodion yn ystod y cyfnod, mae tystiolaeth i awgrymu bod hunan-esgeulustod wedi bod yn nodweddiadol o ymarweddiad Oedolyn C. Gall hunan-esgeuluso gynnwys ystod o ymddygiadau megis peidio â gofalu am

hylendid, iechyd neu amgylchiadau personol. Mae natur gymhleth ac amleffennog yr hunan-esgeulustod yn golygu ei bod yn anodd ei ganfod a'i ddiagnosisio. Gall hunan-esgeuluso gael canlyniadau dwys i iechyd a lles pobl hŷn. Fe'i nodweddir gan anallu i fodlon anghenion personol sylfaenol, a all fod yn fwriadol ac yn anfwriadol ac sy'n gynyddol gyffredin o ran ymarweddiad (Gibbons et al, 2006).

Nododd cofnodion y feddygfa pan welwyd Oedolyn C gartref oherwydd cais am driniaeth i'w choesau wlsereg, fod iddi ymarweddiad blêr, ei bod yn drewi o wrin, yn droednoeth ac mewn dillad carpiog. At hynny, roedd briwiau amlwg ar ei choesau a ddisgrifiwyd fel "llysnafeddog" ac angen eu hasesu ymhellach a'u trin gan y Gwasanaeth Nyrsio Ardal.

Nododd adroddiad yr heddlu fod cyflwr cartref Oedolyn C yn "dlodaidd ac mewn cyflwr gwael a bod angen atgyweiriadau trydanol brys". At hynny, dynododd argymhelliad gan Therapi Galwedigaethol am grant cyfleusterau i'r anabl fod angen gwneud addasiadau i gartref Oedolyn C i roi cyfleusterau hylendid hygyrch iddi a fyddai'n bodloni ei hanghenion gofal personol yn well.

Awgryma tystiolaeth mai nodwedd gyffredin o ran hunan-esgeuluso yw amharodrwydd i ymwneud ag asiantaethau sy'n cynnig cymorth o ran iechyd a lles (Gibbon's et' al, 2006). Mae mesurau effeithiol i ymwneud â chleientiaid, sy'n hunan-esgeuluso, yn gofyn am ddull amlasiantaeth a all gymryd amser i'w roi ar waith yn effeithiol a sicrhau newid. Mae'r mesurau hyn yn dibynnu ar y gallu i feithrin perthynas â chleientiaid i hwyluso ymgysylltu a deall anghenion a dymuniadau'r unigolyn.

Amlygodd yr adolygiad er bod Oedolyn C a'i mab wedi gofyn am help gyda'i hiechyd corfforol, ei chyllid, addasiadau a thrwsio'r cartref roeddent yn amharod i weithio gyda gweithwyr proffesiynol ac yn aml yn gwrthod cymorth. Golygai hyn na allai cynrychiolwyr asiantaeth weithio gydag Oedolyn C i gyflawni'n effeithiol lefel briodol o wasanaeth i fodloni ei hanghenion.

Cydnabu gweithwyr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu fod yr holl asiantaethau a ymwnâi ag Oedolyn C yn cael trafferthion o ran ymgysylltu, ond nad oeddent yn gwybod bod eraill yn ceisio gwneud hynny wrth ymwneud ag Oedolyn C. Teimlai ymarferwr, o fyfyrion, y gallai dull amlddisgyblaeth, cydlynol fod wedi helpu i hwyluso hyn a deall yn well anghenion a dymuniadau Oedolyn C.

Gallu a Chydsyniad

Roedd gweithwyr proffesiynol ag Oedolyn C wedi dynodi eu bod yn credu bod gan Oedolyn C allu i wneud penderfyniadau ar ei hiechyd, ei lles a'i chyllid. Roedd hyn yn amlwg o'r farn a fynegwyd gan weithwyr proffesiynol yn y digwyddiad dysgu ac o fewn cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol.

Mynegodd sawl un fod y rhagdybiaeth o allu'n ystyriaeth hollbwysig wrth benderfynu ar barodrwydd Oedolyn C i ymwneud â gwasanaethau, a'u bod yn cyfeirio at egwyddor y Ddeddf Galluedd Meddyliol o ragdybio gallu.

Mae'r adolygwyr yn cydnabod bod yn rhaid dilyn egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol wrth weithio gydag unigolion er mwyn sicrhau dull seiliedig ar hawliau wrth gynnig ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol. At hynny, maen nhw'n cydnabod bod gan unigolion hawl i wneud penderfyniad gwybodus ar eu hiechyd a'u lles hyd yn oed os yw eraill o'r farn ei fod yn annoeth.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol hefyd yn nodi bod yn rhaid i ymarferwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unigolion yn cael gwybodaeth lawn am ganlyniadau eu penderfyniadau a'r hyn a wnânt. Rhaid i ymarferwyr fodloni eu hunain eu bod wedi gweithredu'n ddigonol i sicrhau cael nid yn unig gydsyniad ar sail gwybodaeth ond hefyd tynnu'n ôl o wasanaethau gan wybod y canlyniadau.

Prin fod tystiolaeth o gofnodion gan gynrychiolwyr yr asiantaethau yn ystod y cyfnod hwnnw, fod unrhyw weithiwr cymdeithasol wedi cael cyfle i drafod goblygiadau'r hyn a wnaeth Oedolyn C o ran ei hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn rhannol achos y patrwm o benodiadau a fethwyd gydag Oedolyn C a'i mab. Byddai mab Oedolyn C yn aml yn gwneud apwyntiadau neu'n cysylltu ag asiantaethau ar ran Oedolyn C yn gofyn am e.e. gwybodaeth o ran taliadau uniongyrchol, neu i gael meddyginiaeth. Fodd bynnag, pan fyddai gweithwyr proffesiynol yn cysylltu ag Oedolyn C am help gyda'r materion hyn byddai'n gwrthod ymgysylltu heb bresenoldeb ei mab.

Roedd yn aneglur i'r gweithwyr proffesiynol perthnasol faint o effaith a gâi'r berthynas rhwng Oedolyn C a'i mab ar ei gallu i wneud dewisiadau annibynnol. Er enghraifft, pan geisiodd Nyrsys Ardal ymweld â'r cartref am yr wythfed tro (y tro olaf) methodig, cawsant eu hatal gan fynd i mewn gan y mab a ddisgrifiwyd fel "dan ddylanwad". Nid oedd swyddogion tai bob amser yn siŵr p'un ai a oedd Oedolyn C yn gwbl ymwybodol o'i sefyllfa ariannol. Er enghraifft, pan geisiodd asiantaethau roi gwybod iddi ei bod ar fin cael ei thafu allan oherwydd ôl-ddyledion tai, nid ymddangosai'n ymwybodol nad oedd ei rhent yn cael ei dalu. Dywedodd wrth gynrychiolwyr tai'r awdurdod lleol ar y pryd bod "ei rhent yn cael ei dalu a bod ei mab yn gwneud yr holl daliadau rhent ar ei rhan". Mae hwn yn rhywbeth y gwyddai'r cynrychiolwyr tai ei fod yn anwir ond ni heriwyd ei dealltwriaeth o'i hamgylchiadau.

Cafwyd ymweliad ar y cyd gan Byw'n Annibynnol a Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, nad arweiniodd at gamau pellach, am fod Oedolyn C wedi gwrthod mynediad i'r gweithwyr i'w heiddo gan arwain at sgwrs fer â'r gwasanaethau ar garreg y drws. Cafwyd nifer o sgyrsiau â gweithwyr proffesiynol naill ai ar garreg y drws, neu flwch post neu drwy ffenestr agored.

O'r nifer gyfyngedig o sgysiau rhwng Oedolyn C a gweithwyr proffesiynol, mae'n anodd gweld sut y gallai un asiantaeth fod wedi asesu Oedolyn C fel un a allai wneud penderfyniad cwbl hysbys am ei hanghenion parhaus.

Dyweddodd nifer o weithwyr proffesiynol drwy gydol eu hymwneud ag Oedolyn C nad oedd ganddynt reswm i dybio nad oedd gan Oedolyn C gapasiti. Yn ystod y digwyddiad dysgu, fodd bynnag, rhoddodd cynrychiolwyr y tîm Nyrsio Ardal wybod i'r adroddiad, ar yr ymweliad olaf â'r cartref, eu bod wedi gwneud atgyfeiriad at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Roedd hyn am iddynt ddechrau poeni am iechyd meddwl Oedolyn C. Roedden nhw'n credu y gallai ei hymarweddiad fod wedi dangos bod anawsterau iechyd meddwl ganddi a allai fod wedi effeithio ar ei gallu bryd hynny. Nid oedd cofnod yn y dogfennau nyrsio ardal na meddygfa y gwnaed yr atgyfeiriad hwn. Amlygodd trafodaeth â meddyg teulu Oedolyn C yn dilyn y digwyddiad dysgu fod cofnodion a wnaed wedi'r ail ymweliad â'r tîm wedi dynodi er y rhagdybiwyd fod gan Oedolyn C gapasiti, ac y gellid bod wedi adolygu hyn ar gam hwyrach. A allai fod wedi dynodi bod asesiad o alluedd wedi cael ei ystyried.

Trothwy Oedolyn Mewn Perygl er Atgyfeirio

O'r cofnodion a'r trafodaethau ag ymarferwyr yn ystod y digwyddiad dysgu, roedd yn amlwg i ymarweddiad Oedolyn C awgrymu ei bod yn Oedolyn mewn Perygl. Er gwaethaf hyn nid oedd tystiolaeth fod unrhyw weithiwr cymdeithasol wedi ystyried gwneud atgyfeiriad oedolyn mewn perygl at yr awdurdod lleol.

Amlygodd asesiad risg y Nyrsys Ardal y risgiau i weithwyr proffesiynol yn ymweld â'r cartref oherwydd ymddygiad y mab, diogelwch a chyflwr y cartref. Fodd bynnag, ni throsodd yr asesiad hwn yn ystyriaeth o bryder diogelu i Oedolyn C. Dynododd dogfennau yng nghofnodion y feddygfa y credai'r Nyrsys Ardal fod mab Oedolyn C yn dylanwadu ar ei phenderfyniadau o ran derbyn gofal. Er gwaetha'u pryderon nid ystyriodd y Nyrsys Ardal yr angen i drafod y sefyllfa â Thîm Diogelu'r Bwrdd Iechyd, neu gyda Diogelu Oedolion yn y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion.

Yn ystod y digwyddiad dysgu, cydnabu tîm tai'r Awdurdod Lleol y gallai amgylchiadau ariannol Oedolyn C fod wedi'u heffeithio gan ei mab, ond ar y pryd nid oeddent wedi ystyried p'un a oedd yn llawn ymwybodol o'i hamgylchiadau o ran hyn. Roedd hyn er gwaethaf iddi wadu ei bod mewn ôl-ddyledion gan ei bod yn credu bod ei mab yn gwneud y taliadau.

Nodwyd hefyd yn y digwyddiad dysgu y cadwyd gwybodaeth hanesyddol ar systemau'r heddlu o ran mab Oedolyn C a fyddai wedi, petai'n ofalwr arni (fel y rhagdybiai rhai asiantaethau) a allai fod wedi codi pryderon ychwanegol am les Oedolyn C. Ni ddangosodd cofnodion yr heddlu fod gan fab Oedolyn C unrhyw gyfrifoldeb gofalu dros ei fam ac felly roedd y

HCD a gyflwynwyd i'r Gwasanaethau Oedolion mewn perthynas â phryderon am iechyd a lles Oedolyn C ddim yn cynnwys ei fanylion na gwybodaeth gefndirol. Pe cyflwynid adroddiad oedolyn mewn perygl i'r awdurdod lleol gan un o'r asiantaethau a oedd yn ymwneud ag Oedolyn C, byddai hyn wedi dwyn i gwestiwn gyfrifoldebau ei mab a byddai'r wybodaeth a oedd gan yr heddlu fwy na thebyg fod wedi cael ei rhannu.

Mae Dyletswydd i Adrodd Oedolyn mewn Perygl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Adran 128) yn gosod dyletswydd ar bartneriaid awdurdod lleol i adrodd unrhyw oedolyn y maen nhw'n amau ei fod mewn perygl. Nid yw hyn yn gofyn am i dystiolaeth gael ei chyflwyno adeg yr atgyfeiriad fod cam-drin neu esgeulustod wedi digwydd. Y nod yw diogelu pobl sydd angen hynny a'u helpu i atal cam-drin neu esgeulustod. Ychydig o dystiolaeth sydd o gofnodion gweithwyr proffesiynol y cyfnod dan sylw fod hyn wedi'i ystyried. Pan gafodd ei ystyried, yn y pen draw penderfynodd yr ymarferwyr taw'r sefyllfa oedd bod Oedolyn C yn gwrthod gwasanaethau a bod ganddi'r gallu i wneud hynny.

Mae Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 6 – Trin Achosion Unigol Diogelu Oedolion mewn Perygl yn cydnabod bod cydsyniad yn ffactor pwysig wrth benderfynu beth i'w wneud mewn ymateb i bryder neu gyhuddiad Oedolyn mewn Perygl. Er, nodir yn y ddogfen fod amgylchiadau pan na all Oedolion mewn Perygl ddiogelu eu hunain oherwydd eu hanghenion gofal a chymorth. Dylai gweithwyr proffesiynol yn y sefyllfaoedd hyn ddefnyddio eu barn broffesiynol i asesu a yw anghenion yr oedolyn am ofal a chymorth yn effeithio i ba raddau y gall wneud dewisiadau gwybodus heb bwysau neu dan orfodaeth. Yn ogystal ag ystyried cydsyniad neu allu i gytuno i ymholiad Oedolyn mewn Perygl, rhaid ystyried natur ac effaith yr anghenion oedolyn hyn.

Gall safbwynt yr oedolyn i wrthod asesiad gael ei ddiystyru pan fo gweithiwr proffesiynol o'r farn, er gwaethaf galluedd, fod risg uchel i iechyd a lles yr unigolyn.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried a yw'r oedolyn y credir ei fod mewn perygl yn gwneud penderfyniadau drosto'i hun ai peidio, wrth benderfynu ar natur yr ymholiadau. Pe cychwynid atgyfeiriad oedolyn mewn perygl, gallai ystyriaeth lawn o'r uchod fod wedi'i gwneud dan brosesau diogelu oedolyn.

Gwella Systemau ac Arfer

Er mwyn sicrhau y dysgir o'r achos hwn nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol i'r CCDC a'i asiantaethau partner a'r canlyniadau gwella disgwylledig:-

Argymhelliad 1

Dylai pob asiantaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i unigolyn y credir ei fod mewn perygl neu fod angen cymorth gael ei rhannu ag aelodau staff yn yr asiantaeth a gyda'r unigolyn i sicrhau asesiad risg cadarn. Dylai fod systemau digonol ar waith i hwyluso hyn.

Argymhelliad 2

Dylai asiantaethau sicrhau bod staff yn gwybod diffiniad oedolyn mewn perygl a'u cyfrifoldebau dan adran 128 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ni ddylai diffyg cydsyniad fod yn rhwystr i wneud atgyfeiriad os yw barn broffesiynol yn mynnu bod risg barhaus i iechyd a lles oedolyn mewn perygl.

Argymhelliad 3

Dylai pob asiantaeth gofio am ddylanwad posibl gofalwyr a phobl bwysig eraill ar unigolyn ag anghenion gofal a chymorth, i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o wirfodd ac nid dan orfodaeth ac er budd yr oedolyn.

Argymhelliad 4

Dylai asiantaethau sicrhau prosesau archwilio a monitro parhaus i'w cofnodion i sicrhau bod dymuniadau a theimladau unigolyn wedi'u hystyried a bod hynny'n arwain at benderfyniadau gwybodus.

Argymhelliad 5

Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried cyflwyno Polisi Hunan-Esgeuluso Amlasiantaeth a hyfforddiant cysylltiedig fel y gall ymarferwyr rheng flaen adnabod dangosyddion hunan-esgeuluso ac y gallant adnabod pryd y gallai hyn fod yn digwydd fel pryder diogelu. Dylai dull amlddisgyblaeth a/neu amlasiantaeth gael ei fabwysiadu wrth gweithio gydag oedolion os amheuir hunan-esgeuluso.

Argymhelliad 6



Asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol am sicrhau argaeledd cyngor, cymorth a goruchwyliaeth o ran diogelu ac atgyfnerthu cyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol i fanteisio ar y gwasanaeth hwnnw.

Datganiad gan Adolygwr/wyr

ADOLYGYDD 1	Debbie Pachu	ADOLYGYD D 1 (fel y bo'n briodol)	Claire Jackson
--------------------	--------------	--	----------------

Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>	Datganiad o annibyniaeth o'r achos <i>Datganiad Sicrwydd Ansawdd o gymhwyster</i>
---	---

<p>Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na fûm yn uniongyrchol gyfrifol am yr unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl 	<p>Gwnaf y datganiad canlynol i nodi cyn imi fod yn rhan o'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na fûm yn uniongyrchol gyfrifol am yr unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos • Nid wyf yn rheolwr llinell uniongyrchol ar ymarferwr(wyr) sy'n rhan o'r achos • Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad priodol a hyfforddiant i gynnal yr adolygiad • Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol a'i fod yn drylwyr ei ddadansoddiad a'i werthusiad o'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl
--	--

<p>Adolygydd 1 (Llofnod)</p> 	<p>Adolygydd 2 (Llofnod)</p> 
<p>Enw (Printio)</p> <p>Debbie Pachu</p>	<p>Enw (Printio)</p> <p>Claire Jackson</p>
<p>Dyddiad</p> <p>July 2019</p>	<p>Dyddiad</p> <p>July 2019</p>

<p><i>Cadeirydd y Panel Adolygu</i> (Llofnod)</p> 	
<p>Enw (Printio)</p> <p>Clayton Ritchie</p>	
<p>Dyddiad</p> <p>July 2019</p>	

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Atodiad 2: Amserlen gryno

Proses adolygu Arfer Oedolion

I gynnwys yn gryno yma:

- *Y proses a ddilyna'r CCDC a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd digwyddiad dysgu a'r gwasanaethau oedd yn bresennol*
- *Roedd aelodau'r teulu wedi cael gwybod, ceisiwyd eu barn ac fe'u cynrychiolwyd drwy'r digwyddiad dysgu a rhoddwyd adborth iddynt*

Hysbysodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2018 ei fod yn comisiynu Adolygiad Arfer Oedolion Cryno o ran achos APR4/2017.

Roedd y gwasanaethau ar y panel yn cynnwys:

Heddlu De Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Gwasanaethau Oedolion Cyngor Caerdydd

Adran Tai Cyngor Caerdydd

Gwasanaethau Byw'n Annibynnol Cyngor Caerdydd

Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol Cyngor Caerdydd

Uned Fusnes BDRh Caerdydd a'r Fro

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 28 Chwefror 2019 a chafwyd cynrychiolwyr o'r asiantaethau canlynol:

Heddlu De Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Gwasanaethau Oedolion Cyngor Caerdydd

Adran Tai Cyngor Caerdydd

Gwasanaethau Byw'n Annibynnol Cyngor Caerdydd

Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol Cyngor Caerdydd

Ni allai'r meddyg teulu ddod i'r digwyddiad dysgu. Fodd bynnag, cyfarfu'r adolygwyr â'r meddyg teulu ar 28 Mawrth 2019 a chafodd y sylwadau a'r adborth eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cafodd mab Oedolyn C, fel yr unig aelod hysbys o'i theulu, wybod yn ysgrifenedig am y penderfyniad i gynnal AAO a chafodd gyfle i gwrdd â'r adolygwyr yn annibynnol i'w farn gael ei mynegi. Gwnaed ymdrechion ychwanegol gan gyswllt Heddlu De Cymru i gysylltu â'r mab ac ymwneud ag ef ond ni lwyddwyd i wneud hyn.

Teulu'n gwrthod cyfrannu

At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad y cafwyd y wybodaeth

Dyddiad anfon llythyr cydnabod i Gadeirydd CCDC

Dyddiad anfon i arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol

Asiantaethau	Ie	Na	Rheswm
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
HIW	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Cwnstablath AEM	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Prawf AEM	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

Cylch Gorchwyl Adolygiad Arfer Oedolion (Cryno) Parthed: AAO 4/2017

Cyflwyniad

Caiff adolygiad arfer oedolion cryno ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (BDORh) yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3. Comisiynir adolygiad arfer oedolion cryno pan fo oedolyn mewn perygl sydd heb, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, fod yn berson y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu i'w ddiogelu rhag cam-drin neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol a'i fod wedi:

- marw; neu
- gael anaf a allai beryglu bywyd; neu
- gael nam difrifol a pharhaol o ran iechyd.

Cylch Gorchwyl

Y cylch gorchwyl a gytunwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yw:

- Yr amserlen adolygu fydd **Medi 2016 – 10 Tachwedd 2017**
- Bydd y gwasanaethau canlynol yn llunio amserlen o ddigwyddiadau arwyddocaol o ran eu gwaith â'r Oedolyn, at ddiben y cyfnod uchod. Yna caiff amserlen gyfunol ei llunio.
 - *Heddlu De Cymru*
 - *Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r Fro (Meddyg Teulu/Nyrsio Ardal)*
 - *Therapi Galwedigaethol Cymunedol Caerdydd*
 - *Gwasanaethau Byw'n Annibynnol Cyngor Caerdydd*
 - *Tai Caerdydd*
 - *Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Caerdydd*

Tasgau Craidd (ar gyfer adolygiad arfer oedolion cryno/estynedig) (*dileer fel y bo'n briodol*)

- Penderfynu p'un a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu'n yr achos yn cydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau i'r gwasanaethau a'r Bwrdd a enwir.

- Archwilio gwaith rhyngasiantaeth a gwasanaethau i'r unigolyn a'i deulu
- Penderfyniad i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu wedi'u canolbwyntio'n unigol
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybodaeth iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw archwiliadau neu waith cyd-aliniol o ran yr achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygwr/wyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â chanllawiau adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad nas ceisiwyd eto gan Is-grŵp AAP/AAO, llunio amserlen a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau unsyth i'w cymryd.
- Llunio amserlen gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaeth.
- Cynllunio gydag adolygydd/wyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, i gynnwys nodi pwy sy'n dod a threfniadau i baratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd/wyr drefniadau cyswllt â'r unigol ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad adolygu arfer oedolion drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i bodloni, trafod y ddamcaniaeth gychwynnol a nodi unrhyw ddysgu ychwanegol yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i gyflwyno i'r BDORh i'w hystyried a'u cytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adroddiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.

Tasgau'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (BDORh)

- Ystyried a chytuno i unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

- Y *panel adolygu*'n cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- BDORh i anfon yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu i'r asiantaethau perthnasol i roi sylw terfynol arnynt cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Is-Grŵp AAP/AAO i gadarnhau trefniadau rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth, gan gynnwys sut y caiff y gwelliannau disgwylidig i'r gwasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan BDORh.
- Cytuno i'w ddsbarthu i asiantaethau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Bydd Cadeirydd y BDORh yn gyfrifol am gyhoeddi'r sylwadau a'r ymatebion i gyfryngau sydd â diddordeb o ran yr adolygiad nes cwblhau'r broses.

Amserlen Gryno DO 4/2017

<p>2 Medi i 20 Mawrth 2016</p>	<p>2 Medi 2016 Gwasanaethau cyllid tai - Atgyfeiriad wedi'i ddechrau oherwydd ôl-ddyledion rhent. Cofnod cyntaf yn ystod y cyfnod adolygu a arweiniodd at dair ymdrech aflwyddiannus i gysylltu.</p> <p>16 Medi 2016 - Atyfeiriad CBA wedi'i wneud cais y tîm cyswllt lles ar gyfer taliadau uniongyrchol.</p> <p>27 Medi 2016 - Achos yn cael ei gau gan y tîm cyswllt lles oherwydd 3 ymweliad aneffeithiol. Oedolyn C ddim yn gwybod pam ymwelodd y tîm lles. Mab ddim yno. Gwnaeth y gwasanaethau cyllid tai hefyd gau'r achos oherwydd tri apwyntiad methodig.</p> <p>17 Tachwedd 2016 - Swyddog tenantiaeth yn cael ymweliad dilynol â chartref y teulu ond ni wnaed unrhyw beth am nad oedd y tenant adref. Anfonwyd llythyr dilynol.</p> <p>20 Rhagfyr 2016 - Caewyd yr achos gan Swyddog Tenantiaeth gan na chafwyd rhagor o gwynion.</p> <p>8 Ionawr 2017 - Cysylltodd y Gwasanaethau Cyllid Tai â mab Oedolyn C i drefnu apwyntiad i drafod materion tenantiaeth Oedolyn C.</p> <p>11 Ionawr 2017 - Cyswllt Therapi Galwedigaethol cyntaf gan fab Oedolyn C yn gofyn am asesiad o ran materion symudedd Oedolyn C.</p>
---------------------------------------	--

	<p>12 Ionawr 2017 - Gwasanaethau Cyllid Tai'n siarad ag Oedolyn C o ran ôl-ddyledion rhent nas talwyd. Cafodd Oedolyn C wybod nad oedd y taliadau'n cael eu gwneud, gydag Oedolyn C yn dweud bod ei mab yn gwneud y taliadau.</p> <p>16 Chwefror 2017 - Daw mab Oedolyn C i apwyntiad Meddyg Teulu yn hytrach na'i fam yn gofyn am adolygiad meddyginiaeth gan na all ei fam ddod i'r apwyntiad oherwydd diffyg symudedd. Ar yr un diwrnod ymwelodd y tîm Cyswllt a Chyllid Tai â chartref y teulu a rhoi ffurflen gais i fab Oedolyn C am Daliadau Tai Uniongyrchol drwy'r ffenestr.</p>
<p>20 Mawrth i 13 Mehefin 2017</p>	<p>22 Mawrth 2017 Ymweliad â'r cartref gan y meddyg teulu wedi nodi bod Oedolyn C yn flêr ac nas bodlonwyd ei hanghenion iechyd. Gwnaed atgyfeiriad at y tîm Nyrsio ardal, at ddibenion asesu a thrin pellach.</p> <p>23 Mawrth - Caeodd y nyrsys ardal yr achos oherwydd pedwar apwyntiad a fethwyd.</p> <p>28 Mawrth 2017 Crëwyd Hysbysiad Diogelu Cyhoeddus (HDC) yn dilyn adroddiad gan gymydog o ran ci yn cyfath a gweiddi yng nghyfeiriad cartref Oedolyn C. Nododd swyddogion amodau byw gwael, gydag un yn cyfeirio at gyflwr y tŷ fel tlodaidd.</p> <p>4 Ebrill 2017 - Agorwyd atgyfeiriad ar gronfa ddata Gwasanaethau Oedolion Care First gan swyddog cyswllt Gwasanaethau Byw'n Annibynnol (GBA) ar ôl i'r HDC ddod i law.</p> <p>21 Ebrill 2017 - Agorwyd yr achos gan swyddog cyswllt GBA ar Gronfa Ddata Gwasanaethau Oedolion Care First.</p>

	<p>27 Ebrill 2017 - Penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â'r atgyfeiriad er na roddodd Oedolyn C gydsyniad. Roedd hyn oherwydd pryderon am ei symudedd, ei hunan-ofal a phresenoldeb ci mawr. Ni nodwyd risg unsyth a olygai fod angen ymweliad brys ar hyn o bryd.</p> <p>7 Mai 2017 - Cofnodion yr heddlu'n dangos i gymydog gysylltu â nhw ynghylch pryderon bod ci Oedolyn C wedi bod yn yr ardd dros y deuddydd diwethaf heb fod Oedolyn C mewn golwg. Ni wnaed HDC am nad oedd swyddogion yn teimlo bod pryderon pan aethent draw.</p> <p>13 Mai 2017 - Cafodd yr heddlu gyswllt ychwanegol gan yr un cymydog yn mynegi pryderon am les Oedolyn C. Ni chyflwynwyd HDC am nad oedd pryderon ar y cam hwn.</p> <p>17 Mai i 20 Mehefin 2017 - Pum cais i'r Meddyg Teulu yn ystod y cyfnod hwn yn gofyn am boenliniarwyr ar ailadrodd i Oedolyn C. Ceisiadau gan Oedolyn C a'i mab.</p> <p>19 Mai 2017 - Cwblhau asesiad Therapi Galwedigaethol. Argymell gosod lifft grisiau i hwyluso mynediad i'r ystafell ymolchi i fyny'r grisiau. Gwrthododd Oedolyn C y cynnig hwn.</p> <p>24 Mai i 30 Mai 2017 - Ymdrecha'r tîm cyswllt tai i gysylltu deirgwaith yn rhagor i drafod ôl-ddyledion rhent. Oedolyn C yn gwrthod y ceisiadau hyn am nad oedd ei mab yn bresennol.</p> <p>7 Mehefin 2017 - CBA yn ceisio ymweliad â'r cartref ond ni chafwyd mynediad.</p>
--	--

14 Mehefin i 10 Tachwedd 2017

20 Mehefin 2017 - Oedolyn C yn gofyn am bresgripsiwn pellach am boenliniarwyr o'r Feddyfga.

22 Mehefin 2017 - Cyswllt Tai'n cau achos Oedolyn C oherwydd diffyg ymgysylltu gan y teulu.

14 Gorffennaf 2017 - Cyllid Tai'n rhoi gwybod i Oedolyn C nad oedd taliadau rhent yn cael eu gwneud a'u bod yn prosesu hysbysiad taflu allan. Oedolyn C yn rhoi gwybod bod angen siarad â'i mab.

1 Awst 2017 - Cofnodion y feddygfa'n dangos bod y nyrsys ardal yn aros am gyfarwyddiadau gan y meddyg teulu am nad oeddent wedi llwyddo cysylltu ag Oedolyn C. Roedden nhw'n pryderu am iechyd dirywiol Oedolyn C. Gallent weld fod y tŷ'n flêr ac o'r farn fod ymarweddiad y mab yn destun pryder. Ceisiodd y meddyg teulu gysylltu ag Oedolyn C yr un diwrnod gan adael neges ar y peiriant ateb yn gofyn iddi ffonio'n ôl. Anfonodd y feddygfa lythyr yr un diwrnod.

7 Awst 2017 - Oedolyn C yn gwrthod mynediad i'w chartref i'r tîm atgyweirio Tai. Achos yn cael ei gau am nad oedd grym i orfodi'r tenant i gydymffurfio.

23 Awst 2017 - Cyllid Tai'n ffonio Oedolyn C, gan fod angen trafod materion tenantiaeth â hi. Rhoddodd Oedolyn C y ffôn lawr yn dweud na allai glywed.

28 Awst 2017 - cwblhau Aseiad Risg Gweithiwr Unigol Nyrsys Ardal. Nodir risgiau i Oedolyn C.

	<p>29 Awst 2017 - Heddlu'n mynd i'r cartref am fod cymydog wedi adrodd digwyddiad domestig ar ôl clywed gweiddi yn nhŷ'r teulu. Pan gyrhaeddodd yr heddlu, nid oedd digwyddiad. Roedd y teledu'n uchel ac roedd ci mawr yno. Ni chyflwynwyd HCD gan nad oedd yr ymweliad yn destun pryder.</p> <p>14 Medi 2017 - Camau meddiannu cyllid tai'n dechrau.</p> <p>10 Tachwedd 2017 cafwyd galwad 999 i'r Gwasanaeth Ambiwlans gan fab Oedolyn C yn dweud iddo ganfod ei fam ar y llawr ac ymddengys ei bod yn farw.</p>
--	--